

Rhagair Arweinydd y Cyngor

Mae'r ddogfen hon, yr adroddiad cyrhaeddiad ar ail flwyddyn cynllun strategol tair blynedd Cyngor Gwynedd, yn gyfraniad tuag at y dasg bwysig o sicrhau ein bod yn atebol i drigolion y Sir am ein blaenoriaethau ac am gyflawni ein haddewidion. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni yn erbyn ei gynlluniau a'i dargedau yn 2009/10.

Yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd hynod heriol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn agored ac yn gynhwysol yn ein trafodaethau a'n cynlluniau i geisio darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf, ac i barhau i chwilio am ddulliau newydd o'i darparu.

Unwaith eto, hoffwn ddatgan diolch i fy nghyd aelodau ac i staff y Cyngor am eu hymroddiad a'u hymdrechion i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyngor gydag uchelgais i gyflawni a hynny o fewn amgylchiadau cynyddol anodd.



Dyfed Edwards
Leader – Gwynedd
Council

Rhagair y Prif Weithredwr

Credaf ei bod yn bwysig iawn bod Cyngor Gwynedd, er gwaetha'r amgylchiadau cyllidol, yn parhau i ddangos uchelgais a blaengaredd wrth gynllunio a darparu'r ystod eang iawn o wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.

Wrth ddangos uchelgais, mae'n hanfodol hefyd ein bod yn ymatebol i bobl Gwynedd am ein perfformiad a'n gweithgareddau, a dyna bwrpas sylfaenol y ddogfen hon. Unwaith eto eleni, mae'r gwelliannau a nodir yn yr adroddiad yma wedi eu cyflawni mewn awyrgylch o gwtogiadau llym mewn adnoddau, ac ymddengys mai dyna fydd y sefyllfa am sawl blwyddyn i ddod.

Er gwaetha hynny, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ymdrechu i wella gwasanaethau cyhoeddus, gan ddefnyddio dulliau darparu newydd a dychmygus, a chydweithio ar draws ffiniau daearyddol a sectorau gwaith lle mae hynny o fantais i ddefnyddwyr y gwasanaethau.

'Rwy'n ddiolchgar iawn felly i aelodau a swyddogion y Cyngor am eu hymroddiad a'u cydweithrediad i sicrhau'r perfformiad gorau posib.



Harry Thomas
Chief Executive –
Gwynedd Council

CYNLLUN GWELLA GWYNEDD 2010

Adroddiad ar Gyrhaeddiad 2009/10

Cynnwys

| Rhan | Teitl | Tudalen |
|-------------|---|----------------|
| A | Cyflwyniad | 3 |
| B | Crynodeb o Berfformiad 2009/10 | 5 |
| Atodiad 1 | Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2009/10 – Prif Faterion | 20 |
| Atodiad 2 | Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2009/10 – Dangosyddion Allweddol | 36 |
| Atodiad 3 | Dangosyddion Statudol - Adroddiad ar Berfformiad Terfynol 2009/10 | 39 |

A. CYFLWYNIAD

Mabwysiadwyd Cynllun Strategol Tair Blynedd ar gyfer Gwynedd am y cyfnod 2008/09 – 2010/11. Cyhoeddwyd adolygiad o'r cynllun yn Ebrill 2010, oedd yn cynnwys manylion am gynlluniau y mae'r Cyngor am geisio eu cyflawni yn ystod 2010/11. Mae'r cynllun hwnnw yn nodi prif flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella ei wasanaethau.


Y mae'r Cynllun yn ddolen gyswllt bwysig rhwng cynnwys Strategaeth Gymunedol Gwynedd a chynlluniau busnes y Cyngor ar lefelau amrywiol, o'i Gynlluniau Busnes Gwasanaeth i'w ddangosyddion a'i gynlluniau ar gyfer gwella ar lefel unedau busnes.

Y cyd-destun Statudol

Cyfeirir at y Cynllun Tair Blynedd fel Rhan 1 o'r Cynllun Gwella, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru o dan Raglen Gwella Cymru. Yma, cyflwynir ail ran y Cynllun. Pwrpas yr ail ran yw cynnig trosolwg o berfformiad a chyraeddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol a fu, sef perfformiad yn ystod 2009/10.

Y Cyd-destun Strategol yng Ngwynedd

Mae'r diagram isod yn dangos y lefelau, neu'r haenau, o fewn trefn cynllunio busnes y Cyngor, ac yn dangos y berthynas anorfod rhwng cynlluniau'r Cyngor a chynlluniau ei bartneriaid allweddol.



Mae'r cynllun wedi ei strwythuro ar sail Cerdyn Cytbwys Corfforaethol, sef model sy'n arwain y Cyngor i ymateb i ddisgwyliadau allanol yn ogystal ag anghenion mewnol y Cyngor.

Mae'r Cerdyn Cytbwys Corfforaethol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, ac wedi ei strwythuro dan 4 amcan y Cyngor sef,

- Amcan 1 – Cymuned Gynaliadwy
- Amcan 2 – Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd
- Amcan 3 – Tegwch a chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus
- Amcan 4 – Ffocws ar drigolion

Caiff hyn ei ddangos yn y gyfres o welliannau a dangosyddion perfformiad sydd wedi'u cynnwys, fesul blaenoriaeth strategol, yn y Cynllun Tair Blynedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar y cynnwys, cysylltwch â'r Adran Strategol a Gwella, ar 01286 679052 (e-bost: ymholiadau@gwynedd.gov.uk).

Am gopi o'r ddogfen mewn iaith arall neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â ni drwy'r manylion uchod.

B. CRYNODEB O BERFFORMIAD 2009/10

Fel y nodwyd eisoes, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull y 'Cerdyn Cytbwys' ar gyfer adrodd ar berfformiad yn erbyn ei Flaenoriaethau Strategol a'i ddangosyddion allweddol. Mae'r dull hwn yn rhoi crynodeb o berfformiad yn erbyn agweddau allanol, sef 'Cymuned Gynaliadwy', 'Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus' a 'Ffocws ar drigolion', ac agweddau mewnol sef 'Gwella'r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd'. Y bwriad yw ceisio pwysu a mesur:

- A yw'r Cyngor yn cwrdd â gofynion budd-ddeiliaid allanol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'r sefydliadau sy'n llywodraethu a rheoleiddio ei waith e.e. Llywodraeth Cynulliad Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru?
- A yw'r Cyngor yn datblygu ei drefniadaeth fewnol ac yn rheoli ei adnoddau mewn modd effeithiol, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau mewnol angenrheidiol ar gyfer cwrdd â'r gofynion allanol yn gadarn?

Lluniwyd y Cerdyn Cytbwys o'r newydd ar gyfer y cyfnod 2008/09 – 2010/11. Gellir gweld manylion am y cyrhaeddiad yn 2009/10 isod.

Cerdyn Cytbwys Corfforaethol – Gwelliannau i ymateb i Flaenoriaethau Strategol 2009/10

Gweler isod ddadansoddiad o berfformiad y Cyngor ar gyfer 2009/10. Mae'r dadansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y gwelliannau / cynlluniau a raglennwyd i'w cwblhau yn ystod 2009/10. Er mwyn hwyluso i'r darlennydd, mae pob amcan wedi ei rhannu i Flaenoriaethau Strategol, gyda phob Blaenoriaeth Strategol yn gasgliad o welliannau neu gynlluniau.

Adroddir ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi llwyddo i'w gyflawni mewn dwy ffordd –

- a) tabl yn cynnwys disgrifiad naratif o'r prif lwyddiannau a fu yn ystod 2009/10
- b) tabl yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd mewn ffigurau

a) Disgrifiad byr o gyrhaeddiad yn ystod 2009/10

| Amcan 1 | Cymuned Gynaliadwy |
|--|---|
| <p>Economi Gwynedd</p> <p><i>Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir</i></p> | <p>Rhodddwyd blaenoriaeth uchel i ddatblygu a gweithredu nifer o brosiectau economaidd gwahanol ar draws y Sir. Gwnaed hynny ar y cyd gyda nifer o bartneriaid gwahanol, yn cynnwys y sector breifat a'r trydydd sector, fel bod y Sir yn ymateb yn effeithiol i effeithiau'r dirwasgiad. Rhodddwyd cryn ymdrech i weithredu rhaglen waith o gynlluniau a ddyluniwyd gan gynrychiolaeth o'r sector gyhoeddus, breifat a gwirfoddol er mwyn cefnogi busnesau lleol - a hynny ar gyfnod heriol iawn iddynt. Roedd y cydweithio agos er mwyn gweithredu cyfres o fesurau gwahanol i gefnogi'r sector fusnes yn lleol yn hynod lwyddiannus. Un cynllun a gafodd ymateb positif oedd y gefnogaeth ymarferol a roddwyd i'r sector adeiladu yn lleol i'w galluogi i gystadlu am gytundebau newydd - gwelwyd hyn yn allweddol er mwyn datblygu'r sector yng Ngwynedd ond hefyd i gadw cyn gymaint a phosib o'r cytundebau gwaith yn lleol.</p> <p>Llwyddiant arall yn ystod y flwyddyn oedd gweithredu rhaglen Cynllun Datblygu Gwledig yng Ngwynedd. Mae'r rhaglen wedi'i rhannu yn bedwar prosiect sy'n cynnig gwahanol fathau o gymorth a all fod yn allweddol er mwyn cefnogi busnesau lleol ffynnu. Un o'r rhain yw prosiect "mentro", sy'n sbarduno mentergarwch ymhlith grwpiau neu unigolion sydd erioed wedi mentro o'r blaen. Lanswyd y prosiect hwn yn ystod y flwyddyn hon, gan olygu bod sesiynau i sbarduno syniadau am fentrau newydd ar gael, cymorth yn ei le i ddatblygu sgiliau mentergarwch, a bwrsariaeth o hyd at £3,000 ar gael i dreialu neu gychwyn menter newydd.</p> <p>Gwelwyd yn ogystal nifer o gynlluniau economaidd y Sir yn derbyn cymeradwyaeth o dan Raglen Cyd-gyfeiriant Ewropeaidd, yn eu mysg Canolfan Rhagoriaeth Awyr Agored Eryri (£4m), Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog (£4m), Genesis 2 (£2.6m) a Llwyddo'n Lleol (£1.4m). Byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant yma yn ystod 2010/11.</p> <p>Rhodddwyd hefyd sylw i ddatblygu Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd – bydd gweithredu rhaglen waith y Cynllun hwn, a thargedu adnoddau o raglenni ariannol gwahanol, yn flaenoriaeth uchel yn ystod y flwyddyn nesaf.</p> <p>Er gwaethaf y cynnydd hyn, roedd nifer o feysydd lle y methwyd a chyfarfod a'r uchelgais wreiddiol yn ystod y flwyddyn neu y bu'n rhaid addasu'r gwaith oherwydd bod amgylchiadau wedi newid. Canlyniad penderfyniad y Llywodraeth Ganolog am leoliad carchar newydd a</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>arweiniodd at fethiant i wireddu cynlluniau i fanteisio ar hynny. Bu peth oedi ar y rhaglen waith o ystyried creu banc buddsoddi lleol ac mae'r gwaith hwnnw yn cael sylw yn 2010/11. Ni fu'n bosib datblygu mentrau yn yr economi werdd a rheoli gwastraff yn unol a'r amcanion gwreiddiol ond bydd hwn yn cael sylw pellach yng nghynlluniau'r Cyngor ar gyfer 2011/14. Yn olaf, dim ond dau allan o darged o bedwar adolygiad caffael cynladwy a gynhaliwyd a cytunwyd y byddai targed o ddau adolygiad y flwyddyn yn fwy realistig i'r dyfodol.</p> |
| <p>Cyflenwad Tai</p> <p><i>Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas</i></p> | <p>Y prif lwyddiannau o dan y flaenoriaeth yma oedd datblygu a gweithredu trefniadau allweddol ar gyfer trosglwyddiad stoc Cyngor Gwynedd i Gartrefi Cymunedol Gwynedd (y gwaith wedi ei ddatblygu yn sgil fod mwyafrif o denantiaid tai Cyngor Gwynedd, yn 2008/09, wedi pleidleisio i allanoli stoc tai'r Cyngor). Lithrodd dyddiad y trosglwyddiad drosodd ddwy wythnos i mewn i Ebrill 2010.</p> <p>Yn ogystal, llwyddwyd i ddychwelyd 35 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Roedd hyn yn uwch na'r targed gwreiddiol o 32. O'r 35 uned, daeth 16 yn ôl i ddefnydd drwy'r Grant Cymorth i Landlordiaid, 11 uned drwy fesurau gorfodaeth ac 8 uned arall drwy ymdrechion annogaeth.</p> <p>O ran tai fforddiadwy, sicrhawyd fod 25% o dai a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn rhai fforddiadwy, sy'n cyfateb i 92 uned.</p> <p>Cwblhawyd gwaith cychwynnol o ran adnabod mentrau posib er mwyn hwyluso mynediad i brynwyr tro cyntaf i'r farchnad dai. Fodd bynnag oherwydd ansicrwydd argaeledd adnoddau yn 2009-10 (mewnol ac allanol i'r Cyngor) i weithredu mentrau, ni weithredwyd unrhyw fenter benodol i brynwyr tro cyntaf. Yr ymdrechion yn parhau felly mewn i 2010-11 gan gynnwys gwneud defnydd o £800,000 sydd wedi ei sicrhau gan Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer menter rhan berchnogaeth Cymorth Prynu i brynwyr tro cyntaf.</p> |

| | |
|---|---|
| <p>Plant a Phobl Ifanc</p> <p><i>Cymryd camau i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar draws y sir</i></p> | <p>Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y maes yma dros y flwyddyn, gyda chamau cychwynnol y strategaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir yn cael ei gweithredu. Llwyddwyd i dderbyn cymeradwyaeth y Cyngor i gynigion ar gyfer dalgylch Tywyn, ac fe gychwynnwyd y gwaith trafod mewn dalgylchoedd eraill.</p> <p>Cychwynnwyd y gwaith yn ogystal o roi ystyriaeth i gynigion ac opsiynau ar gyfer y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant, ac fe gafwyd llwyddiant gyda chais am adnoddau i symud y gwaith yn ei flaen yng Ngwynedd a Môn. Gwelwyd nifer o gynlluniau cydweithredol rhwng ysgolion a cholegau yn cael eu datblygu er mwyn ymestyn y dewis i bobl ifanc. Cydnabyddir bod mwy angen ei wneud yn y maes yma er mwyn ymateb yn llawn i ofynion y Cynulliad, yn enwedig mewn perthynas â'r Mesur Dysgu a Sgiliau.</p> <p>Un datblygiad arwyddocaol arall o dan y flaenoriaeth strategol yma oedd wythnos plant a phobl ifanc cyntaf Gwynedd. Trefnwyd nifer o weithgareddau gwahanol ar draws y Sir i ddathlu llwyddiant plant a phobl ifanc, ac i hyrwyddo ymhellach flaenoriaethau ac amcanion Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Gwelwyd yr wythnos yn gyfle da i dynnu sylw at raglenni arloesol sy'n cael eu datblygu o fewn y Sir i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc, yn enwedig yn y maes blynyddoedd cynnar.</p> |
| <p>Sgiliau</p> <p><i>Ddarparu'r math cywir o sgiliau i adlewyrchu cyfleoedd a gofynion yn y farchnad lafur</i></p> | <p>Bu cryn weithgaredd dan y flaenoriaeth yma, gyda chynllun gweithredu'r Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth ar gyfer Gwynedd a Môn yn cael ei rhoi at ei gilydd, a nifer o brosiectau gwahanol yn cael eu rhoi mewn lle er mwyn datblygu sgiliau pobl ifanc a gweithlu'r Sir. Un gweithgaredd a roddwyd sylw iddo yn ystod y flwyddyn oedd hyrwyddo'r Fagloriaeth Gymreig o fewn ysgolion y Sir - gwelwyd hyn yn allweddol er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer y gweithle. Rhoddwyd mwy o sylw i'r maes mentegarwch o fewn y cwricwlwm, gyda'r ystôl fenter i blant a phobl ifanc yn cael ei chwblhau, ac fe gychwynnodd y gwaith o weithredu cynllun Llwyddo'n Lleol, gan anelu i ddatblygu'r awydd i fentro ymysg pobl ifanc.</p> <p>Cytunwyd yn ogystal ar y strwythurau cydweithio i sefydlu cytundebau "dysgu yn y gweithle" ar gyfer ardal Gwynedd a Môn, a hynny ar y cyd gyda Choleg Menai a Chyngor Môn. Roedd cyflawni hyn yn allweddol er mwyn ennill cytundebau'r Cynulliad yn y maes yma.</p> |

| | |
|--|--|
| <p>Yr Iaith Gymraeg</p> <p><i>Parhau i warchod a hybu'r iaith Gymraeg.</i></p> | <p>Gwelwyd nifer o gynlluniau gwahanol yn cael eu datblygu o dan y flaenoriaeth strategol yma, fel y Cynllun Cymhathu Teuluoedd a'r Cynllun Iaith yn y Buarth. Rhoddwyd sylw yn ogystal i weithredu rhaglen waith y Strategaeth Iaith i'r Sir, gan wneud hynny yn aml-asantiaethol. Rhoddwyd cryn ymdrech yn ogystal i wreiddio addewidion y Siarter Iaith o fewn y sector gyhoeddus yng Ngwynedd - gwelwn y Siarter Iaith yn ddatblygiad pwysig er mwyn anelu i sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn gwasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg.</p> <p>Yn ogystal â chynlluniau gwahanol, gwelwyd sefydlu Hunaniaeth yn ystod y flwyddyn hon. Dyma fydd y corff fydd yn hyrwyddo cynllunio ieithyddol o fewn y Sir, gan sicrhau cydweithio a chyd-gynllunio agos rhwng y cyrff cyhoeddus a gwirfoddol sy'n weithredol yn y maes. Cytunwyd ar flaenoriaethau clir i raglen waith Hunaniaeth, a llwyddwyd i gael cefnogaeth Bwrdd yr Iaith i ariannu rhai cynlluniau yn ystod y flwyddyn.</p> |
| <p>Newid Hinsawdd</p> <p><i>Datblygu cynlluniau i ymateb i a lleihau effaith Newid Hinsawdd</i></p> | <p>Bu i'r Cyngor fabwysiadu strategaeth wastraff newydd sy'n manylu sut y bwriedir sicrhau ein bod yn cwrdd â'r targedau lleihau gwastraff a anfonir i dirlenwi yn y dyfodol. O gyflawni'r strategaeth, rhagwelir erbyn 2024/25 y bydd costau'r Cyngor ar gyfer ymdrin â gwastraff bron i £5m y flwyddyn yn llai na phe byddem yn parhau ar y trywydd presennol.</p> <p>Erbyn hyn mae'r Cyngor yn ailgylchu neu gompostio 41.3% o'r gwastraff a gesglir (o'i gymharu â 23.88% yn 2005/6)</p> <p>Bu Cyngor Gwynedd hefyd yn arwain gwaith gyda chyrrff cyhoeddus eraill o fewn y sir i fabwysiadu cynllun i leihau eu hallyriadau carbon o adeiladau 60% erbyn 2021. 'Roeddem wedi gobeithio sefydlu gwaelodlin a thargedau hefyd ar gyfer trafndiaeth, gwastraff a phwrcasu ond fe lithrodd y rhaglen honno rhywfaint. Bwriedir adennill y sefyllfa yn ystod 2010/11.</p> <p>Fel rhan o'r cynllun yma, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cynllun rheoli carbon fydd yn lleihau 30% ar ei allyriadau carbon erbyn 2014/15. Eisoes mae'r Cyngor wedi gostwng 4.7% ar ei ôl troed carbon o lefelau 2005/6 ond cydanbyddwyd fod angen newidiadau mawr os ydym am wneud gwahaniaeth a bydd y gwaith o weithredu'r cynllun yn cychwyn o ddifri yn 2010/11</p> |

| | |
|--|---|
| <p>Cynllunio Dyfodol i'r Sir</p> <p><i>Cynllunio bwriadol i hybu dyfodol hyfyw ar gyfer y Sir yn wyneb y newidiadau yn y byd o'n cwmpas</i></p> | <p>Gwelwyd cynnydd da gyda'r Cynllun Datblygu Unedol ar gyfer Gwynedd. Llwyddwyd i fabwysiadu'r Cynllun hwn ar ôl cyfnod hir o waith ymgynghori, ac fe gytunwyd yn ogystal ar gyfer o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn hwyluso'r drefn o asesu ceisiadau cynllunio mewn rhannau gwahanol o'r Sir.</p> <p>Er na lwyddwyd i gael Cytundeb Cyflanwi yn ei le, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, gwnaed gwaith rhagbaratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd a rhoddwyd drafft o Gytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r Cynllun yn ei le. Mae trafodaethau ynglyn a threfniadau ar y cyd gyda Chyngor Ynys Mon wedi golygu peth oedi ond bydd y budd allai godi o gael trefniant cydweithio ffurfiol rhwng y ddau gyngor o fudd ehangach maes o law.</p> <p>Gwnaed cryn waith lobio o dan y flaenoriaeth strategol yma. Cyflwynwyd achos er mwyn ceisio cael y Grŵp sy'n dyrannu adnoddau i Lywodraeth Leol i newid ei fformiwla ar gyfer dyrannu anodau Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cydnabod y gost uwch o ddarparu'r fath wasanaethau mewn ardal wledig, a bu hynny'n llwyddiannus iawn. Yn ogystal, cafwyd llwyddiant wrth lobio ar gyfer sefydlu trefn genedlaethol o drethi ar ail gartrefi. Bu i'r Cyngor hefyd arwain yn genedlaethol ar faterion sydd o bwys i ardaloedd gwledig mewn nifer o achosion.</p> <p>Llwyddwyd i fanteisio ar raglenni fel y Rhaglen Datblygu Wledig a Chyd-gyfeiriant er mwyn ariannu cynlluniau arloesol oddi mewn rhai o gymunedau'r Sir, ac fe roddwyd achos busnes at ei gilydd er mwyn ail-leoli swyddi yn y sector gyhoeddus i rannau mwy canolog o fewn y Sir. Roedd hyn yn gyfeiriad strategol bwriadus, gyda'r nôd o ledaenu twf ar draws Gwynedd.</p> |
|--|---|

| Amcan 2 | GWELLA'R CYNGOR ER MWYN GWELLA GWYNEDD |
|---|---|
| <p>Prosesau a Systemau</p> <p><i>Sicrhau systemau a phrosesau addas a chyfoes</i></p> | <p>Er ein bod wedi rhagweld y byddem yn moderneiddio prosesau gwaith mewn 6 maes newydd yn ystod y flwyddyn, ac wedi cyflawni hynny, daeth yn amlwg yn fod angen sefydlu dull gwahanol ar gyfer trawsnewid prosesau busnes os am wella'r canlyniad i ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Bydd y gwaith a wnaed yn sgil y newid cyfeiriad yma yn arwain at newid diwylliant sylweddol o fewn y Cyngor ac yn arwain at wasanaethau sydd yn cael eu cynllunio o gwmpas anghenion defnyddwyr gan hefyd leihau costau.</p> <p>Bu llithriad yn y broses o brynu system adnoddau dynol/cyflogau newydd er mwyn sicrhau fod ein trefn prynu yn sicrhau'r ateb mwyaf cost effeithiol i'r Cyngor. Yn ddiweddarach daeth yn amlwg y dylid asesu a oes yna gyfleoedd ar gael i gydweithio gyda chyrrff eraill yn hytrach na phrynu system ein hunain. Nid ydym eto wedi terfynu'r trafodaethau hynny a hyd nes y bydd hynny wedi ei ddatrys ni fyddwn yn symud ymlaen.</p> <p>Yn y cyfamser, gwnaed yr holl waith sydd angen ei wneud ar gyfer sicrhau os byddwn angen symud ymlaen, ein bod mewn sefyllfa i fynd allan i dendr yn syth.</p> |
| <p>Pobl a Diwylliant</p> <p><i>Gwella rheoli, gwerthfawrogi a chysylltu gyda gweithwyr mewn fframwaith clir a diwylliant "Un Cyngor" positif</i></p> | <p>Bu cynnydd amrywiol yn y cynlluniau i newid diwylliant y Cyngor. Sefydlwyd cynllunio'r gweithlu fel egwyddor anorfod ar draws y Cyngor gyda'r system wedi'i integreiddio i'r fframwaith gynllunio busnes.</p> <p>Gwnaethpwyd gwaith pellach ar gyfathrebu mewnol i sicrhau gweithrediad llawn o'r strategaeth datblygwyd yn 2008/09 gan gynnwys sicrhau cyfleoedd rheolaidd i reolwyr a staff ar bob lefel cyfrannu at waith datblygol y Cyngor. Mabwysiadodd y Cyngor set newydd o werthoedd yn dilyn ymgynghoriad llawn. Codwyd ymwybyddiaeth ohonynt trwy nifer o ddulliau cyfathrebu a, thrwy hyn, cychwynnodd ar sicrhau eu bod yn greiddiol i holl waith y Cyngor ac yn arwain at ddiwylliant "Un Cyngor".</p> <p>Ni welwyd y cynnydd disgwylidig ym mhob maes. Er enghraifft, gohiriwyd y gwaith o hybu diwylliant positif trwy gymell agwedd gadarnhaol o fentro, cymryd risgiau ystyrion, dysgu parhaus a dathlu llwyddiant hyd nes oedd y strategaeth cyfathrebu llawn mewn lle a'r gwerthoedd wedi'u sefydlu ar draws y Cyngor. Yn ogystal, gwelwyd bod angen ail-asesu'r achos dros ymestyn y trefniadau gweithio hyblyg cyn symud ymlaen.</p> |

| | |
|--|---|
| <p>Arweinyddiaeth a Gweledigaeth</p> <p><i>Datblygu'r Cyngor fel ei fod yn cael ei arwain yn well.</i></p> | <p>Sefydlwyd fframwaith ar gyfer adnabod a meithrin arweinwyr y dyfodol trwy ddatblygu graddedigion i fod yn rheolwyr cyffredinol. Mabwysiadwyd setiau o gymwyseddau ar gyfer aelodau etholedig a staff er mwyn sicrhau ymddygiadau priodol ac arwain datblygiad. Cadarnhaodd rôl rheolwyr trwy ddatblygu a mabwysiadu swydd disgrifiad safonol er mwyn eu grymuso i ddatblygu capasiti strategol. Datblygwyd fframwaith i gefnogi a datblygu aelodau a gweithredwyd yr elfennau sy'n ymwneud ag arweinyddion a chadeiryddion.</p> |
| <p>Y Defnydd o Adnoddau</p> <p><i>Sicrhau gwerth am arian, sylfaen asedau cynaliadwy a chysylltu adnoddau a blaenoriaethau.</i></p> | <p>Yn unol â'r enw da sydd gan y Cyngor am reolaeth ariannol gadarn fe sefydlwyd strategaeth ariannol ar gyfer y tair blynedd i ddod gan gynnwys llunio cyfundrefn i adnabod arbedion gwerth £1.6m i gau'r bwloch a adnabuwyd rhwng y symiau y byddai angen eu gwario a'r adnoddau fyddai ar gael dros y tair blynedd i ddod.</p> <p>Mabwysiadodd y Cyngor hefyd gynllun rheoli asedau sydd yn manylu ar yr hyn y bwriedir ei wneud gyda holl asedau'r Cyngor dros y 10 mlynedd nesaf a'r dull o'i ariannu bydd yn cynnwys gwaredu nifer sylweddol o eiddo'r Cyngor. Erbyn diwedd 2009/10 'roeddem wedi lleihau ôl troed adeiladau'r Cyngor o dros 7,200m² ers Mawrth 2009, ond ni lwyddwyd i gyfarfod ein targed ar gyfer cyflwr ein hadeiladau yn rhannol oherwydd y parhad yn nirywiad y stoc.</p> <p>Cafodd y gweithgaredd yn y meysydd yma eu henwebu am wobwr rhagoriaeth Cymru ar gyfer cynlluniau nodedig yn eu maes.</p> <p>Mabwysiadwyd Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gan y Cyngor yn gosod allan y weledigaeth a'r rhaglen ar gyfer harneisio potensial technoleg gwybodaeth er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a gefnogir ac a ddarperir gan y Cyngor mor effeithlon ac effeithiol a phosibl.</p> <p>Y bwriad yn ystod y flwyddyn hefyd oedd sefydlu strategaeth ar gyfer gwneud defnydd mwy effeithiol o'r adnodd wybodaeth sydd gan y Cyngor. Gan fod y maes yn un cymhleth ac yn treiddio drwy'r Cyngor bu cynnydd yn llai na fyddem wedi disgwyl a bellach gobeithir cwblhau'r strategaeth yn ystod 2010/11.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, hefyd, bu'n rhaid ail-ymweld a'r bwriadau ar gyfer adolygiadau strategol er sicrhau bod ein cynllun yn addas ar gyfer yr hinsawdd ariannol sydd wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn. Cafwyd dau lithriad hefyd yn y maes caffael gydag oedi mewn gwireddu targed incwm y Bartneriaeth Caffael tan 2010/11 a phroblemau system dechnegol yn dal yn ôl y cynnydd ar ymestyn y cynllun e-gaffael sydd wedi profi mor llwyddiannus yn ein hysgolion i adrannau eraill o'r</p> |

| | |
|--|--|
| | Cyngor. |
| Amcan 3 | TEGWCH A CHYFLEOEDD I BOBL A CHYMUNEDAU BREGUS |
| <p>Plant a Phobl Ifanc Bregus</p> <p><i>Ymateb i anghenion y plant a phobl ifanc mwyaf bregus.</i></p> | <p>Gwelwyd datblygiadau pwysig yn y maes yma. Mae'r Cyngor wedi bod yn flaengar wrth ddatblygu ystod eang o gynlluniau o fewn y Cynllun Peilot Tlodi Plant, ac fe gwblhawyd arfarniad annibynnol o'r Cynllun hwn yn ystod 2009/10. Yn anffodus, oherwydd diffyg adnoddau, ni fu modd ymestyn y trefnadau gweithredu i ardaloedd eraill ond defnyddiwyd y canlyniadau fel sail ar gyfer paratoi Strategaeth Llythrennedd Ariannol mewn Ysgolion a byddwn yn edrych i ddatblygu elfennau o'r strategaeth hon yn ystod y flwyddyn nesaf.</p> <p>Yn ychwanegol, gwelwyd cynnydd yn sgil gweithredu amryw o gynlluniau gwahanol. Llwyddwyd i weithredu Cynllun Ymyrraeth Dwys ar gyfer plant bregus a phlant ar fin dod i ofal, ac fe lwyddwyd i ymestyn Cynllun Tîm o Amgylch y Plentyn i ardaloedd gwahanol o'r Sir - a hynny ar ôl gwerthusiad o'r Cynllun Peilot a gynhaliwyd yn nalgylch Eifionnydd. Gwelwn y datblygiad yma yn un allweddol er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc bregus, a sicrhau eu bod yn derbyn y math cywir o wasanaethau gan y sector gyhoeddus a gwirfoddol.</p> <p>Un datblygiad pwysig arall yn y flaenoriaeth strategol yma oedd sefydlu Bwrdd Diogelwch Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Gwynedd a Môn. Cytunwyd ar gyfansoddiad ar gyfer y Bwrdd, ynghyd a chynllun busnes ar gyfer y flwyddyn 2009/10. Yn ogystal, rhoddwyd trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn cynnal archwiliadau o achosion difrifol yn erbyn plant a phobl ifanc.</p> |
| <p>Blaenoriaethu Cymunedau o Angen</p> <p><i>Rhoi sylw penodol a chyfeirio adnoddau i gymunedau o angen</i></p> | <p>Rhoddwyd cryn sylw yn ystod y flwyddyn i roi cynlluniau newydd ar waith er mwyn cefnogi'r cymunedau o angen yng Ngwynedd. Llwyddwyd i ddatblygu cynllun penodol i ddarparu cefnogaeth i unigolion sydd wedi eu heithrio i baratoi ar gyfer byd gwaith, a phecyn ariannol o £3.6m ar gyfer gweithredu'r cynllun. Mae gan y cynllun yma rôl allweddol i chwarae er mwyn cefnogi unigolion bregus o fewn cymunedau Gwynedd.</p> <p>Yn ogystal, llwyddwyd i roi pecyn ariannol o £2.6 miliwn yn ei lle er mwyn gweithredu gwedd 2 o gynllun Genesis, sy'n rhoi cymorth i unigolion i</p> |



| | |
|--|--|
| | <p>ddatblygu eu sgiliau a'u hyder i geisio am waith. Rhoddwyd hefyd sylw i gynllunio prosiect "Taith i Waith" sy'n darparu cymorth i unigolion sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, gan eu cefnogi i ail-ymuno gyda'r farchnad lafur.</p> |
|--|--|

| | |
|---|---|
| <p>Gwasanaeth Oedolion Bregus</p> <p><i>Oedolion a'u gofalwyr, yn derbyn gwasanaethau addas i'w anghenion, gan sicrhau parch ac urddas</i></p> | <p>Ni wnaed y cynnydd disgwylid mewn rhai o'r gwelliannau dan y pennawd yma. Ar ôl llwyddo gyda Cham 1 o'r Adolygiad Strategol o Wasanaethau Preswyl a Nyrsio bu oedi wrth symud yr adolygiad yn ei flaen er bellach mae momentwm sylweddol wedi'i greu i'w ddilyn i'w derfyn. Yn yr un modd bu llithriad yn amserlen Adeiladu i'r Dyfodol gydag oedi cychwyn gwaith yn y Bala oherwydd yr angen i ddilyn trefn statudol i ail-gyfeirio ffordd ac anawsterau cynllunio yn Llan Ffestiniog yn golygu gorfod ail-gyflwyno cais cynllunio i'r datblygiad o dai gofal ychwanegol.</p> <p>Roedd gweddill gwelliannau'r flaenoriaeth yma, sef gwella gwasanaethau dementia, gwella gwasanaethau i ofalwyr a strategaeth lletya anabledd dysgu, ynghlwm i'r rhaglen wella Gwasanaethau Cymdeithasol lle llwyddwyd i wneud cynnydd sylweddol.</p> |
|---|---|

| Amcan 4 | FFOCWS AR DRIGOLION |
|---|--|
| <p>Amgylchedd o Ansawdd</p> <p>Gwella'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig er budd trigolion.</p> | <p>Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am wasanaethau lleol fel meysydd chwarae, cynnal llwybrau a thoiledau cyhoeddus i bartneriaeth o gynghorau cymuned yn ardal Penllyn er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion lleol fedru dylanwadu'n uniongyrchol ar eu hardal. Arbrawf yw hwn sydd hyd yma i weld yn cael ei chroesawu gan drigolion yr ardal.</p> <p>Llwyddwyd i ymestyn gwaith o fewn cynllun Balchder Bangor (sy'n ceisio cydgordio ymdrechion gwahanol fudiadau yn y dref i sicrhau amgylchedd o ansawdd. Mae'r cynllun yn llwyddiant a bellach bwriedir ei ymestyn i leoliadau eraill.</p> |
| <p>Ffocws ar y Cwsmer</p> <p><i>Sicrhau mynediad rhwydd at wasanaethau, a'u bod yn cael eu cyflawni'r ar amser ac yn cwrdd â safonau a gyhoeddir</i></p> | <p>Y bwriad ar gyfer eleni oedd cyflwyno gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o Ganolfan Galw Gwynedd ond yn wyneb yr angen i gynnal adolygiad o brosesau busnes ehangach cyn trosglwyddo'r rhain i'r ganolfan, ni lwyddwyd i'w cyflawni yn 2009/10. Bydd hyn bellach yn cael ei gwblhau yn 2010/11.</p> <p>Y bwriad yn ystod y flwyddyn hefyd oedd sicrhau fod gwefan y Cyngor yn caniatáu hunan wasanaeth ar gyfer tocynnau parcio a chofrestru ar lein ac adnabod yr elfennau o'r gwasanaeth Cynllunio y gellir ei wneud drwy hunan wasanaeth ar lein. Llwyddwyd i gyflawni'r ddau gyntaf ond bu oedi gyda'r trydydd fydd yn cael ei gwblhau yn 2010/11. Am bob cwsmer sy'n fodlon defnyddio safle we wrth gwrs mae'r costau i'r Cyngor yn lleihau.</p> <p>Fel rhan o'r ymdrech i wella gofal cwsmer sicrhawyd fod 280 o reolwyr a goruchwylwyr yn derbyn hyfforddiant safonol ar ofal cwsmer.</p> |

| | |
|---|--|
| <p>Cyfranogaeth y Gymuned a Dinasyddiaeth</p> <p><i>Sicrhau bod dinasyddion yn medru dylanwadu ar y gwasanaethau a gyflwynir, ac annog dinasyddiaeth</i></p> | <p>Yn ystod y flwyddyn cafwyd canlyniadau arolwg barn a gomisiynwyd gan y Cyngor.</p> <p>Cafwyd ymateb dda ymysg trigolion y sir gyda 42% yn dychwelyd holiaduron sydd ymysg yr uchaf mae MORI wedi eu derbyn.</p> <p>Mae yna nifer o wersi i'r Cyngor ynghlwm a'r ymatebion a gafwyd a bydd y rhain yn cael eu defnyddio i fwydo Cynllun tair Blynedd 2011 - 2014.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, y bwriad oedd sefydlu Panel Dinasyddion er mwyn sicrhau fod gennym ffordd o ddarganfod barn dinasyddion y sir ar faterion cyffredinol pe byddai angen hynny. Llwyddwyd i gael 350 o enwau i wasanaethau ar y panel ond hyd yma nid ydym wedi llwyddo i sicrhau ei fod yn weithredol. Mae gwaith yn mynd ymlaen i geisio sefydlu rhaglen waith ar gyfer y panel yn 2010/11.</p> <p>'Roeddem hefyd wedi bwriadu sefydlu rhaglen i ymestyn y cysyniad o ddinasyddiaeth ymysg yr ifanc ond ni lwyddwyd i wneud hynny yn ystod y flwyddyn gan fod blaenoriaethau eraill o fewn y gwasanaeth wedi torri ar draws</p> |
| <p>Cludiant</p> <p><i>Symud i drefn effeithiol integredig ar gyfer cludiant yn y sir</i></p> | <p>Yn ystod 2009 - 10, bu i'r Cyngor fabwysiadu rhaglen waith amlinellol ar gyfer yr Uned Cludiant Integredig a blaenoriaethu'r tasgau sydd angen eu cyflawni. Yn anffodus, ni lwyddwyd i sefydlu'r uned integredig fel y bwriadwyd yn wreiddiol ond rhoddwyd trefniadau gwaith newydd yn eu lle fydd yn galluogi'r Cyngor i gael gwell gwerth am arian am y gwasanaethau a ddarperir ac i gael mwy o sicrwydd eu bod yn cyfarfod ac anghenion ein defnyddwyr y gwasanaethau hynny.</p> <p>Rhoddwyd pwyslais ar integreiddio anghenion cludiant cyhoeddus, cludiant cymunedol, cludiant addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Disgwylir y bydd y gwaith cychwynnol a ymgwymerwyd yn y cyfnod sefydlu yn 2009/10 yn cael ei ddatblygu yn 2010/11 i drefniant parhaol o 2011 ymlaen.</p> |
| <p>Gwella Gwasanaethau Unigol</p> <p><i>Mynd i'r afael â</i></p> | <p>Roedd pwyslais amlwg yn y flaenoriaeth yma ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys Rhaglen Wella yn dilyn yr Adolygiad ar y Cyd oedd yn cynnwys y materion Lleoli Plant mewn Gofal ac amddiffyn plant. Gwnaed cynnydd sylweddol i</p> |

| | |
|---|--|
| <p><i>meysydd gwasanaeth unigol lle mae'r Cyngor am wneud newid arwyddocaol</i></p> | <p>wella'r gwasanaeth gyda hynny yn cael ei gydnabod gan yr Arolygwyr. Llwyddwyd i symud ymlaen gyda'r gwaith i integreiddio Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol gan sefydlu timoedd ardal ar y cyd i reoli ar draws gwasanaethau ar lefel leol.</p> <p>Yn ychwanegol i'r uchod gweithredwyd ar Gynllun Gwella'r Gwasanaethau Ieuenctid i foderneiddio gwasanaeth a gwnaed adolygiad o drefniadau Cynllunio Argyfwng</p> |
|---|--|

b) tabl yn cofnodi cyrhaeddiad 2009/10

| | Nifer o Welliannau (deilliant) | Gwelliannau sydd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2010 ✓✓ neu ✓ | Gwelliannau nad oedd wedi cwrdd â deilliant y flwyddyn erbyn diwedd Ebrill 2010 ✗ |
|--|--------------------------------|---|--|
| Cymuned Gynaliadwy | 40 | 34 | 6 |
| Gwella' r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd | 22 | 15 | 7 |
| Tegwch a Chyfluoedd i Bobl a Chymunedau Bregus | 16 | 14 | 2 |
| Ffocws ar drigolion | 24 | 20 | 4 |
| Cyfanswm | 102 | 83 | 19 |

Y prif gasgliadau yw:

- Bod 81% wedi cwrdd â, neu wedi gwneud cynnydd derbyniol tuag at gyflawni deilliant y flwyddyn erbyn diwedd 2009/10
- Bod 19% heb gwrdd â deilliant y flwyddyn (Ar gyfer y rhain, mae esboniad o'r camau gweithredu nesaf)

Cerdyn Cytbwys Corfforaethol – Dangosyddion Allweddol 2009/10

Gweler isod ddadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion allweddol ar gyfer 2009/10.

| | Nifer dangosyddion | Dangosyddion wedi cwrdd â tharged cronrus y flwyddyn ✓✓ | Dangosyddion sydd heb gwrdd â tharged cronrus y flwyddyn ✘ |
|---|--------------------|--|---|
| Cymuned Gynaliadwy | 13 | 10 | 3 |
| Gwella' r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd | 13 | 9 | 4 |
| 7Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus | 7 | 3 | 4 |
| Ffocws ar drigolion | 6 | 4 | 2 |
| Cyfanswm | 39 | 26 | 13 |

Y prif gasgliadau yw:

- Bod 26 (69%) o ddangosyddion y cerdyn cytbwys wedi cwrdd â'u targedau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (31 Mawrth 2010)
- Bod 13 (31%) wedi methu cwrdd â'u targedau cronrus erbyn diwedd y flwyddyn
- Mae hyn yn cymharu â 78% o ddangosyddion cerdyn cytbwys 08/09 oedd wedi cyrraedd neu ragori ar darged cronrus y flwyddyn.

Mae'n bwysig i ni nodi yma fod y fasedd o ddangosyddion yn y Cerdyn Cytbwys wedi ei addasu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac felly nid ydym yn cymharu cyflawniad ar yr un dangosyddion yn union.

Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried faint o'r dangosyddion sydd wedi gwella perfformiad ers y flwyddyn flaenorol. Gweler dadansoddiad llawn yn **Atodiad 2**, lle nodir pa ddangosyddion sydd wedi gwella eu perfformiad o'r flwyddyn flaenorol gyda ↑, dangosyddion sydd wedi cadw perfformiad yn gyson wedi eu nodi gyda'r symbol ⇔, a dangosyddion lle mae perfformiad wedi dirywio ers y flwyddyn flaenorol wedi eu nodi gyda ↓.

| | ↑ | ⇔ | ↓ | - (methu cymharu) | Is-gyfanswm |
|---|-------------|-----------|-------------|-------------------|-------------|
| Cymuned Gynaliadwy | 8 | 0 | 5 | 0 | 13 |
| Gwella' r Cyngor er mwyn gwella Gwynedd | 6 | 1 | 5 | 1 | 13 |
| Tegwch a Chyfleoedd i Bobl a Chymunedau Bregus | 4 | 0 | 3 | 0 | 7 |
| Ffocws ar drigolion | 5 | 0 | 1 | 0 | 6 |
| Cyfanswm | 23 (59%) | 1 (3%) | 14 (36%) | 1 | 39 |

Gellir casglu felly bod perfformiad 62% o'r dangosyddion (lle mae'n bosib eu cymharu) wedi gwella neu aros yn gyson rhwng 2008/09 a 2009/10.

Dangosyddion Statudol 2009/10

Mae Cyngor Gwynedd yn pwysleisio mai'r dangosyddion a gesglir fel rhan o'r Cerdyn Cytbwys Corfforaethol yw'r dangosyddion allweddol ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor gasglu ac adrodd ar ddangosyddion statudol sydd wedi eu hadnabod gan Lywodraeth y Cynulliad. Gellir gweld tabl yn cyflwyno'r wybodaeth yma yn **Atodiad 3**.

ATODIAD 1

Cerdyn Cytbwys Corfforaethol 2009/10 – Gwelliannau fesul Blaenoriaeth Strategol

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl welliannau/ cynlluniau oedd wedi eu cynnwys fesul Blaenoriaeth Strategol yng Nghynllun 3 Blynedd 2008/09-2010/11. Noder hefyd symbol ar gyfer y perfformiad ar gyfer y flwyddyn yn y golofn olaf.

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth | |
|-------|--|---|---|-----------------------|--|
| 1 | Economi Gwynedd (Hyrwyddo datblygiadau economaidd a gwasgaru twf ar draws y Sir) | C3B1 | Byddwn wedi cydweithio gyda'r sector breifat yng Ngwynedd er mwyn cytuno cynllun i ymateb i'r dirwasgiad gan wireddu cyfres o fesurau fel rhan o'r cynllun i gefnogi busnesau bach lleol gan gynnwys cynnal 6 o weithdai i gefnogi busnesau o fewn y sector adeiladu. | ✓✓ | |
| | | C3B2 | Byddwn yn cynnal ymchwil i edrych ar oblygiadau creu banc buddsoddi lleol. | x | |
| | | <u>Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad X:</u> Lithriad yn yr amserlen oherwydd oblygiadau'r Etholiad. Adroddiad terfynol yr ymgynghorwyr yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 18 Fai 2010. | | | |
| | | C3B3 | Byddwn wedi buddsoddi mewn cefnogaeth i'r sector adeiladu er mwyn hwyluso unrhyw drefniant i allanoli stoc tai ac i alluogi busnesau lleol i gystadlu am gytundebau newydd o dan fframwaith y Cyngor. | ✓✓ | |
| | | C3B4 | Byddwn wedi sefydlu rhaglen i gefnogi clwstwr o fusnesau gwyddorau meddygol i ddatblygu a chreu swyddi newydd yng Ngwynedd. | ✓✓ | |
| | | C3B5 | Bydd pecyn o brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig wedi eu gweithredu gyda mentrau economaidd gwledig newydd wedi eu sefydlu a'u datblygu o fewn y sectorau twf. | ✓✓ | |
| | | C3B6 | Yn sgil colli swyddi Trawsfynydd, byddwn wedi gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i gytuno pecyn o gynlluniau ar gyfer ardal Trawsfynydd a Blaenau Ffestiniog gan gynnwys rhaglen i gefnogi gweithwyr Magnox i ddatblygu eu gyrfa yn lleol. | ✓✓ | |
| | | C3B7 | Byddwn wedi cydweithio gyda phartneriaid i roi cynllun datblygu yn ei le i uchafu'r budd i'r economi leol o'r sector awyr agored ac ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu mentrau newydd o | x | |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|-------|--------------------------|-------|--|-----------------------|
| | | | fewn yr economi werdd a rheoli gwastraff. | |
| | | | <p><u>Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad X:</u> Cynllun Datblygu ar gyfer y sector awyr agored yn y gogledd orllewin wedi ei baratoi ar y cyd â phartneriaid. Trefniadau mewnol i gydlynu gweithgareddau yn y maes yma ar draws y Cyngor wedi llithro o'r amserlen wreiddiol a hynny oherwydd newid pwyslais i alluogi'r Cyngor i fanteisio ar arian Cyd-gyfeiriant i weithredu prosiect Canolfan Rhagoriaeth Awyr Agored Eryri. Bu'r cais yn llwyddiannus ac mae bellach yn weithredol ac mae'r cynllun gwreiddiol i sefydlu trefniadau trawsadrannol yn symud ymlaen. Drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig cefnogwyd nifer o fentrau lleol gwyrdd, ond ni lwyddwyd i greu'r capasiti i dargedu'r maes ar lefel strategol. Mae'r gwelliant wedi ymddangos fel x gan na lwyddwyd i symud yr elfen mentrau gwyrdd a gwastraff ymlaen yn unol â'r amcanion gwreiddiol. Mae rhaglen llawer mwy strategol yn cael ei pharatoi i'w chyflwyno dan faner 'economi werdd' i Fwrdd Rhaglen Adfywio i'w ystyried fel blaenoriaeth C3B ar gyfer 2011-14.</p> | |
| | | C3B8 | Byddwn yn paratoi i uchafu'r budd economaidd a ddaw yn sgil dyfodiad y carchar newydd i Gaernarfon a chynllunio i leihau unrhyw risgiau posib, gan sefydlu swyddogaeth rheoli prosiect a chynllun prosiect. | x |
| | | | <p><u>Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad X:</u> Yn dilyn cyhoeddiad na fyddai'r carchar yn cael ei ddatblygu yng Nghaernarfon, ni wnaeth y cynllun hwn gael ei weithredu. Byddwn nawr yn pwyso i gael carchar i Ogledd Cymru.</p> | |
| | | C3B9 | Byddwn wedi cyflwyno ceisiadau a pharatoi achosion busnes i dargedu adnoddau o Gronfeydd Cyd-gyfeiriant a Chynllun Datblygu Gwledig er mwyn gweithredu prosiectau blaenoriaeth Gwynedd. | ✓✓ |
| | | C3B10 | Byddwn wedi targedu o leiaf 4 o brif gontractau er mwyn sicrhau ystyriaeth gytbwys a phriodol o faterion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth eu paratoi a'u dyfarnu trwy ddefnyddio'r Polisi Caffael Cynaliadwy. | x |
| | | | <p><u>Ymateb wedi ei gytuno yn dilyn asesiad X:</u> Dau gytundeb wedi ei gwblhau - cytundeb bwyd a chytundeb gofal cartref. Ni sefydlwyd y swydd Arbenigwr Caffael (Cynaliadwy) tan fis Medi 2009 - felly hanner blwyddyn. Diffyg gwybodaeth ynglŷn â chontractau oedd yn cael ei dendro a hefyd diffyg adnoddau er mwyn cyrraedd y targed o 4 gytundeb. Blwyddyn nesaf bydd y targed yn cael ei leihau i 2 gytundeb oherwydd bod hyn yn fwy</p> | |

| Amcan | Blaenoriaethau Strategol | Cyf | Gwelliant (Beth Rydym yn mynd i Gyflawni) | Monitro diwedd Mawrth |
|-------|---|--|--|-----------------------|
| | | | cyraeddadwy gyda'r adnoddau presennol | |
| 1 | Cyflenwad Tai (Galluogi pobl i aros yn eu cymunedau trwy ddarparu cyflenwad o dai addas) | C3B11 | Byddwn yn adnabod rhaglenni i gefnogi busnesau i baratoi tendrau cystadleuol. | ✓✓ |
| | | C3B12 | Byddwn yn gweithredu Cynllun Gwaith y Strategaeth Tai Gwag gan sicrhau dod a dim llai na 25 o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd drwy wahanol ddulliau gan gynnwys anogaeth a gorfodaeth. | ✓✓ |
